**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| W G Lewis | P Lloyd | N L Matthews |
| S J Rice | W G Thomas | T M White |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Clare James | Rheolwr Datblygu Economaidd |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: C R Doyle

---

## 9 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Niweidiol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

## 11 Fframwaith Strategol y Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Economaidd adroddiad ‘er gwybodaeth’ a oedd yn amlinellu’r fframwaith strategol drafft ar gyfer y Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol (CCELl) newydd ar gyfer Abertawe.

Cyfeiriodd at y diweddariad a roddwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd ar 26 Ionawr 2023 a manylodd ar gynnwys y CCELl, yr amserlenni dangosol ar gyfer cwblhau'r gwaith a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu'r CCELl.

Nododd yr aelodau'r cyd-destun strategol, y tri uchelgais a'r fframwaith strategol drafft.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Datblygu Economaidd am y diweddariad.

**Penderfynwyd:**

1) cyflwyno adroddiad diweddaru pellach i'r Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2023.

**12 Adroddiad Statws Strategaeth Bae Abertawe**

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas ddiweddariad ar y gweithdy a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2023 a oedd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer datblygu o fewn pump o'r chwe chyrchfan ym Mae Abertawe.

Manylodd ar y cefndir a chanlyniadau'r gweithdai.

Trafododd yr Aelod y canlyniadau, gan ganolbwyntio’n benodol ar San Helen, y Mwmbwls (Maes Parcio’r Chwarel a’r Cyrtiau Tenis) a Langland.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth at y diffyg cyfleusterau parcio yn y Mwmbwls a'r cyfleusterau yn Langland. Cytunodd y dylai'r Pwyllgor gynnwys Maes Parcio'r Chwarel a Chyrtiau Tenis y Mwmbwls yn eu harchwiliad o Strategaeth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) bod y Cadeirydd yn trefnu ymweliad safle â'r Mwmbwls a Langland.
2) Cynnal ail weithdy yn dilyn yr ymweliad safle â'r Mwmbwls a Langland.

**13 Cynllun Gwaith**

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:-

- 21 Medi 2023 –
  Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm

Cadeirydd